IONAWR A CHWEFROR 2026

YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/

## DIWRNOD RHIF SER ROC






Ar Ddydd Gwener cyntaf mis Chwefror, cafodd yr ysgol ddiwrnod llawn hwyl a dysgu pan wisgodd y disgyblion fel sêr roc! Daeth y plant i'r ysgol gyda gwalltau diddorol, gwisgoedd lliwgar, ac roedd hyd yn oed ambell i gitar i'w gweld o gwmpas yr ysgol.
Yn ystod y dydd, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau mathemategol cyffrous a heriol, gan gyfuno dysgu â hwyl. Uchafbwynt y diwrnod oedd awr ar TT Rock Stars, lle cafodd y disgyblion gyfle i ymarfer eu sgiliau lluosi mewn ffordd hwyliog a chystadleuol.
Roedd yr awyrgylch yn llawn egni a chwerthin, ac roedd y diwrnod yn ffordd wych o ddangos bod mathemateg yn gallu bod yn roc!

## DYDD MIWSIG CYMRU

Dydd Gwener ola cyn hanner tymor roedd hi'n Ddydd Miwsig Cymru. Cymerwyd rhan yn y diwrnod trwy gael disgo yn y prynhawn. Diolch i Siarter Iaith Gwynedd am drefnu bod yr ysgol yn cael ymuno gyda'r cyflwynydd Marc Griffiths am sesiwn llawn hwyl a cherddoriaeth Cymraeg ar Cymru FM! Cyn y diwrnod, roedd y disgyblion wedi danfon ceisiadau o'n hoff ganeuon.



IONAWR A CHWEFROR 2026

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## NOFIO A GYMNASTEG

Yn mis Ionawr 2026, mae Blwyddyn 2 - 6 wedi bod yn mynd i gwersi nofio a gymnasteg pob dydd Mercher i Canolfan Hamdden Bro Ddyfi.
Rydym wedi dysgu sut i symud fel tonnau bach a tonnau mawr. I gynhesu fyny, rydym yn rhedeg o gwmpas y neuadd. Rydym wedi bod yn gwneud bontydd a chydbwyso efo ffrindiau.
Dwi'n hoffi mynd gyda plant Ysgol Pennal.
Ysgrifennwyd gan Efa, Barney a Evie



## CWIS DIM CLEM

Enillom y rownd cyntaf o Cwis Dim Clem! Roedd yr ail rownd ar Ddydd Mawrth y 3ydd o Chwefror. Roeddem yn erbyn deuddeg ysgol arall o Ogledd Cymru. Roedd y cwestiynau amdan mathemateg, gwybodaeth gyffredinol, chwaraeon, a Cymru. Bu llawer o hwyl gennym, roedd rhai yn anodd a rhai yn hawdd gan ein bod wedi bod yn ymarfer! Cawsom y 6ed safle gyda 26,180 o bwyntau.
gan Grace a Anya.



## DIWRNOD DIOGELWCH Y WE

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn Diwrnod Diogelwch y We ac wedi mynychu sesiwn ar-lein a drefnwyd gan E-sgol, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein ac ar rôl ac effaith AI. Mae'n bwysig iawn bod disgyblion yn deall pwysigrwydd defnyddio'r we yn ddiogel, gan ddatblygu sgiliau cyfrifol sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn hyderus ac yn ddiogel.

IONAWR A CHWEFROR 2026

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## NOSON THERMOMIX

Nos Fercher, 11eg o Chwefror daeth rhieni a chymuned Corris at eu gilydd ar gyfer Noson Thermomix. Cawsom 'demo' gan Gabriel Badescu o Proper Gander Tywyn. Bu Gabriel yn dangos i ni y gwahanol fathau o ryseitiau gellir gwneud gan ddefnyddio'r Thermomix. Diolch yn fawr i gymuned Ysgol Dyffryn Dulas am gefnogi'r digwyddiad er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn cael Thermomix ar gyfer gwersi coginio yn yr ysgol.









## GWERSI FFRANGEG

Rydym wedi bod yn cael gwersi Ffrangeg gyda E-ysgol bob dydd iau y mis yma.Rydym ni wedi dysgu rhifau fel 'un deux trois quatre cinq six sept huit neuf dix onze douze' a dysgu cael sgwrs yn Ffrangeg hefo ffrind. Rydym hefyd wedi dysgu sawl can sy'n ei wneud yn hawdd i gofio'r geriau newydd! Mae'n hwyl i ddysgu iaith newydd gan Rhodri a Myrtle

